

# Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

---

**Bydd Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal cyfarfod yn y Ganolfan Rheolaeth, Prifysgol Bangor, ddydd Gwener 14 Gorffennaf 2017, 10.00 – 12.00.**

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys Aelodau Cynulliad o wahanol bleidiau, a fydd yn holi'r Prif Weinidog ynglŷn â gwaith Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r economi yng Nghymru. Mae'r pynciau sy'n debygol o gael eu trafod yn cynnwys:

- datblygu economaidd, gan gynnwys cyflogaeth a phrosiectau buddsoddi;
- polisi a phrosiectau ynni, fel Ynys Ynni Môn;
- prentisiaethau, buddsoddi mewn sgiliau a pholisi sgiliau;
- trafndiaeth, gan gynnwys seilwaith y ffyrdd a'r rheilffyrdd a phorthladdoedd.

Mae croeso i'r cyhoedd ddod i'r cyfarfod. Os hoffech ddod, a fyddech cystal ag anfon cadarnhad erbyn 7 Gorffennaf at: **[cysylltu@cynulliad.cymru](mailto:cysylltu@cynulliad.cymru)** neu ffonio 0300 200 6565.

Os hoffech gymryd rhan ar y cyfryngau cymdeithasol, dylech drydar **@CynulliadCymru**.

Mae rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor, ei gylch gorchwyl a'r Aelodau ar gael ar wefan y Pwyllgor yn: **[www.cynulliad.cymru/CraffuPW](http://www.cynulliad.cymru/CraffuPW)**



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog